

Asesiad Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a hyrwyddo dulliau gwell o weithio yn unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a phedwar paramedr y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn Comisiwn Tegwch Casnewydd i'r Cyngor 2013).

Cwblhawyd gan: Sheree Davies **Swydd:** Swyddog Gwybodaeth a Datblygu

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan **Dyddiad:** 07/10/2019

Cadarnhaf fod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cymeradwyo cynnwys yr asesiad hwn

Ydy/Nac ydy

Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i
impact.assessment@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad o'r polisi / cynnig a asesir. Amlinellwch ddiben y polisi.

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton, ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd, yn cynnig defnyddio'r pwerau a roddir iddynt dan Reoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 i sefydlu **Partneriaeth Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton**.

Mae'r term 'ffederasiwn' yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae'r ysgolion ynghlwm yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth ffurfiol gan rannu'r trefniadau llywodraethiant dan un corff llywodraethu. Bydd y cyrff llywodraethu presennol yn cael eu dirymu a'u disodli gan gorff llywodraethu newydd gyda goruchwyliaeth strategol o'r ddwy ysgol.

Mae'r ddwy ysgol wedi gweithio ar y cyd ers mis Medi 2016 ac wedi rhannu un Pennaeth Gweithredol ers hynny. Mae'r cyrff llywodraethu wedi ymgynghori â'r ALI ac mae bob parti'n cefnogi'r cynnig.

Nod y Ffederasiwn yw i'r ddwy ysgol weithio mewn partneriaeth i:

- ddatblygu'r arfer rhagorol a rennir sy'n gwarantu profiadau ardderchog a mwy o gyfleoedd i ddisgyblion a staff, a
- datblygu'r nodau cyffredin a dulliau dysgu ac addysgu adfyfyrion fydd yn sicrhau bod y ddwy gymuned yn elwa ar addysg o safon.

Bydd hyn yn sicrhau deilliannau cadarnhaol sylweddol a safonau gwell i gymunedau'r ddwy ysgol.

2. Amlinellwch sut rydych chi wedi/sut byddwch chi'n cynnwys y rhanddeiliaid y bydd y polisi/cynnig hwn yn effeithio arnynt

Mae Rheoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) yn amlinellu'r gofyniad statudol i geisio barn rhanddeiliaid ar gynigion ffedereiddio. Yn ystod y broses ymgynghori gwnaeth yr awdurdod lleol gynnwys y rhanddeiliaid canlynol:

- Staff y ddwy ysgol;
- Rhieni, gofawyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol;
- Y disgyblion sy'n mynd i'r ddwy ysgol (drwy law'r ddau Gyngor Ysgol);
- Undebau staff addysgu a staff cymorth yn cynrychioli athrawon a staff y ddwy ysgol;
- Aelodau Ward Lleol y ddwy ysgol;
- Penaethiaid bob ysgol yn ardaloedd clwstwr Llanwern a Llyswyry;
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De-ddwyrain Cymru;
- Estyn

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ffurfiol rhwng 3 Mehefin 2019 i 14 Gorffennaf 2019, lluniwyd adroddiad ymgynghori a'i rannu â'r ddau gorff llywodraethu a'r rhanddeiliaid a nodir uchod. Bellach lluniwyd adroddiad i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau i ofyn am benderfyniad ar ba un a ddylid rhoi'r cynnig ar waith.



3. Pa wybodaeth/tystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd ar wasanaethau ac ati. Nodwch yr holl dystiolaeth rydych yn ei hystyried sy'n berthnasol.




Lluniwyd dogfen ymgynghori a'i dosbarthu i randdeiliaid, a sicrhodd y ddau gorff llywodraethu fod trefniadau'n cael eu gwneud i bobl ddysgu mwy am y cynnig. Cyflwynwyd sylwadau a chwestiynau gan ddefnyddio ffurflen ymateb, a oedd yn y ddogfen ymgynghori ac y gellid hefyd ei lawrlwytho o wefannau'r ysgolion a'r Cyngor. Gwnaed hefyd drefniadau i ymgysylltu'n uniongyrchol â disgyblion y ddwy ysgol i gael eu barn.

4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill	
Oedran	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir. Bydd ystod oedran y disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol gynradd yn aros yr un fath ac nid oes newid i gapasiti'r naill ysgol.
Anabledd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Ailbennu rhywedd/trawsryweddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Priodas neu bartneriaeth Sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Beichiogrwydd neu famolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Hil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Rhyw / Hunaniaeth Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Chyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bydd yr ysgolion yn dal i ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn annhebygol o wneud cyfraniad ystyriol i darged 5 mlynedd Casnewydd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y ddinas.

5 Sut mae eich cynnig wedi ymwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
 <p>Long Term</p> <p>Cydbwyso angen tymor byr gydag anghenion tymor hir</p>	<p>Bydd y cynnig yn cydbwyso anghenion byrdymor ag anghenion hirdymor gyda'r ddwy ysgol gynradd yn cydweithio drwy un corff llywodraethu fydd yn galluogi'r ysgolion i godi safonau a chynnal y ddarpariaeth drwy rannu adnoddau, staff, arbenigedd, a chyfleusterau ac arfer gorau. Bydd y cynnig hefyd yn gwella cyfleoedd i weithgareddau disgyblion, datblygiad proffesiynol staff, a datblygu rheolwyr canol dros yr hirdymor.</p> <p>Dylid ystyried ffederasiwn yn ymrwymiad hirdymor, ac nid fel opsiwn dros dro i ddatrys problem. Wrth fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, mae'r ALI a'r cyrff llywodraethu wedi ystyried yn fanwl y manteision a'r risgiau o sefydlu ffederasiwn mewn perthynas â'r effaith ar gyraeddiadau plant a phobl ifanc. Wedi dweud hynny, ma Rheoliadau Ffederasiwn 2014 yn caniatáu ysgolion unigol i adael ffederasiwn, ac i ffederasiwn gael ei ddirymu.</p>
 <p>Collaboration</p> <p>Cydweithio i gyflawni amcanion</p>	<p>Bydd y ffederasiwn yn galluogi Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton i barhau i gydweithio a chael gweledigaeth a diben ar y cyd o ran yr hyn sydd angen ei wneud i wella cyflawniad a chyrhaeddiad ymhob lefel ar draws y bartneriaeth.</p> <p>Drwy gydweithio, bydd y naill ysgol yn cynorthwyo'r llall mewn cyfnod o anhawster a gall cryfderau'r ysgol gyfrannu at ddysgu'r llall. Gall yr ysgolion drwy gydweithio helpu i gyflawni amcanion a gwelliant drwy eu helpu ei gilydd i mynd i'r afael â phroblemau a rhannu arbenigedd.</p>

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
 <p data-bbox="245 636 354 656">Involvement</p> <p data-bbox="145 680 421 786">Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn</p>	<p data-bbox="459 306 1399 405">Mae'r cynnig yn cael ei weithredu ar y cyd â chyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol berthnasol. Cynhaliwyd y rhaglen lawn o ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid canlynol:</p> <ul data-bbox="459 443 1399 741" style="list-style-type: none"> Staff y ddwy ysgol; Rhieni, gofalywyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol; Y disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol; Undebau addysgu a staff cynorthwyol yn cynrychioli'r ddwy ysgol; Aelodau Ward lleol y ddwy ysgol; Penaethiaid yn ardaloedd clwstwr Llanwern a Llyswry; Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De-ddwyrain Cymru; Estyn <p data-bbox="459 779 1399 943">Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ffurfiol rhwng 3 Mehefin 2019 i 14 Gorffennaf 2019, lluniwyd adroddiad ymgynghori a'i rannu â'r ddau gorff llywodraethu a'r rhanddeiliaid a nodir uchod. Bellach lluniwyd adroddiad i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau i ofyn am benderfyniad ar ba un a ddylid rhoi'r cynnig ar waith.</p>
 <p data-bbox="236 1133 331 1153">Prevention</p> <p data-bbox="145 1167 373 1346">Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p data-bbox="459 983 1399 1249">Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel a chyflawni addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae bod ag arweinwyr effeithiol yn ei ysgolion yn hanfodol i hyn. Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cydweithrediad rhwng pob rhan o'r system addysg i wella deilliannau. Mae ffederasiwn ysgol yn ffordd fwy ffurfiol o ehangu cydweithrediad a hyrwyddo perthnasau gwaith agosach, a dyna yw'r brif fenter er mwyn cyflawni gweithio partneriaeth ffurfiol ymysg ysgolion i wella perfformiad a chulhau'r bwlch cyflawniad i ddisgyblion difreintiedig.</p>
 <p data-bbox="245 1559 341 1579">Integration</p> <p data-bbox="145 1592 411 1738">Ystyried effaith ar bob nod llesiant ar y cyd ac ar gyrff eraill</p>	<p data-bbox="459 1352 1399 1514">Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Cymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd "I wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".</p>

6 A fydd y cynnig / polisi'n cael effaith anghyfartal ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Bydd y cynnig yn effeithio'n benodol ar wardiau Alway a Beechwood a disgyblion sy'n mynychu neu'n debygol o fynychu Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton.

7 Sut mae'r cynnig / polisi'n perthyn i'r paramedrau trafod ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd

Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal wrth nodi gwahaniaeth

Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, bydd y ddwy ysgol yn parhau i gynnal eu hunaniaethau unigol o ran enw, diwylliant ac ethos, ac yn parhau i reoli eu cyllidebau unigol eu hunain. Y cwbl y mae'r trefniant hwn yn ei olygu yw y caiff un corff llywodraethu ei bennu i lywodraethu'r ddwy ysgol. Mae'r ddau gorff llywodraethu wedi gweithio gyda'i gilydd ers mis Medi 2016, ac ers hynny mae'r ddwy ysgol wedi'u rheoli gan un Pennaeth Gweithredol. Mae'r trefniant hwn wedi effeithio'n gadarnhaol ar y ddwy ysgol.

Paramedr 2 – Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth

Bydd y cynnig yn cefnogi'r ddwy ysgol i gydweithio mewn proses strwythuredig ffurfiol drwy rannu trefniadau llywodraethu a bod ag un corff llywodraethu fydd yn gwneud penderfyniadau er budd holl ysgol, staff a disgyblion y ffederasiwn hwnnw.

Paramedr 3 - Rhyng-ddibyniaeth a chilyddiaeth o fewn perthnasoedd cymunedol

Drwy fynd i mewn i ffederasiwn ffurfiol, bydd y ddwy ysgol yn parhau i gydweithio dan arweinyddiaeth a rennir i ddefnyddio eu cryfderau i wella safonau ledled y ffederasiwn a mynd ar ôl meysydd i'w gwella gyda'i gilydd.

Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau

Drwy ffedereiddio dan un corff llywodraethu, gellid gwella ymhellach yr hinsawdd o ymddiriedaeth, gonestrwydd a pharodrwydd i gydweithio sydd eisoes yn bodoli.

8 Gan ystyried yr holl asesiad, beth ellir ei wneud i leihau unrhyw effeithiau negyddol eich polisi a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?

Gallai fod pryderon cychwynol ymysg llywodraethwyr, rhieni a staff tra bod y newid yn cael ei ymgorffori. Er hynny mae'r ddwy ysgol yn cydweithio ers Medi 2016 ac mae perthynas dda eisoes ganddynt.

Roedd y cynnig yn cynnwys cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod pawb yn deall y cysyniad o ffederasiwn a'r hyn y disgwyliid iddo ei gyflawni.

9 Monitro, gwerthuso ac adolygu

Roedd y cyfnod ymgynghori'n gyfle i rhanddeiliaid ddysgu mwy am y cynnig a rhannu eu barn. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ffurfiol rhwng 3 Mehefin 2019 i 14 Gorffennaf 2019, lluniwyd adroddiad ymgynghori a'i rannu â'r ddau gorff llywodraethu a'r rhanddeiliaid a nodwyd. Bellach lluniwyd adroddiad i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau i ofyn am benderfyniad ar ba un a ddyliid rhoi'r cynnig ar waith.

Os y'i cymeradwyir, caiff effeithiolrwydd y ffederasiwn ei fonitro gan yr Awdurdod Lleol.

10 Cynnwys Pobl

Roedd y cyfnod ymgynghori'n gyfle i randdeiliaid ddysgu mwy am y cynnig a rhannu eu barn. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ffurfiol rhwng 3 Mehefin 2019 i 14 Gorffennaf 2019, lluniwyd adroddiad ymgynghori a'i rannu â'r ddau gorff llywodraethu a'r rhanddeiliaid a nodwyd. Ers hynny rhyddhawyd yr adroddiad ymgynghori ar wefannau Ysgol Gynradd Eveswell, Ysgol Gynradd Somerton a Chyngor Dinas Casnewydd.

Bellach lluniwyd adroddiad i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau i ofyn am benderfyniad ar ba un a ddylid rhoi'r cynnig ar waith.

11 Crynodeb o Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldeb 2010

Rhydd Cyngor Dinas Casnewydd gyfle cyfartal i bob disgybl yng Nghasnewydd drwy gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Ni chaiff ffederasiwn y ddwy ysgol gynradd effaith ar ddisgyblion Ysgol Gynradd Eveswell nac Ysgol Gynradd Somerton gan y bydd y ddwy'n aros yn ysgolion ar wahân ac y bydd y corff llywodraethu ar y cyd yn trin y ddwy ysgol yn gydradd.

Y Gymraeg

Ni fydd effaith ar ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Eveswell nac Ysgol Gynradd Somerton o ran y Gymraeg. Gan fod y ddwy ysgol yn rhai Saesneg, caiff y disgyblion dal eu haddysgu pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n cynnwys y Cwricwlwm Cymraeg.

Fodd bynnag, mae'r cynnig yn annhebygol o wneud cyfraniad ystyriol i darged 5 mlynedd Casnewydd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y ddinas.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- **Tymor hir:** pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion tymor hir: *Mae ffederasiwn yn ymrwymiad hirdymor, ac wrth fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, mae'r ALI a'r cyrff llywodraethu wedi ystyried y manteision a'r risgiau mewn perthynas â'r effaith ar gyraeddiadau plant a phobl ifanc. Wedi dweud hynny, ma Rheoliadau Ffederasiwn 2014 yn caniatáu ysgolion unigol i adael ffederasiwn, ac i ffederasiwn gael ei ddirymu.*
- **Atal:** Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ein helpu i fodloni'n hamcanion: *Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel a chyflawni addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae bod ag arweinwyr effeithiol yn ei ysgolion yn hanfodol i hyn. Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cydweithrediad rhwng pob rhan o'r system addysg i wella deilliannau. Mae ffederasiwn ysgol yn ffordd fwy ffurfiol o ehangu cydweithrediad a hyrwyddo perthnasau gwaith agosach, a dyna yw'r brif fenter er mwyn cyflawni gweithio partneriaeth ffurfiol ymysg ysgolion i wella perfformiad a chulhau'r bwlch cyflawniad i ddisgyblion difreintiedig.*
- **Integreiddio:** Ystyried sut y bydd y cynigion yn effeithio ar ein hamcanion llesiant, ein nodau llesiant, amcanion eraill neu amcanion cyrff cyhoeddus eraill: *Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Cymru â chymunedau cydynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd "I wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".*
- **Cydweithredu:** Ydych chi wedi ystyried sut y gall cydweithredu gydag unrhyw berson arall neu unrhyw ran arall o'n sefydliad helpu i fodloni ein hamcanion llesiant: *Cafodd y cynnig hwn ei weithredu ar y cyd â chyrff llywodraethu'r ddwy ysgol be'rthnasol. Cynhaliwyd rhaglen lawn o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae'r Adroddiad Ymgynghori a baratowyd ar ddiwedd y cyfnod hwn yn amlinellu'n llawn fanylion hyn. Bydd y ffederasiwn yn galluogi Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton i barhau i gydweithio a chael gweledigaeth a diben ar y cyd o ran yr hyn sydd angen ei wneud i wella cyflawniad a chyrhaeddiad ymhob lefel ar draws y bartneriaeth. Drwy gydweithio, bydd y naill ysgol yn cynorthwyo'r llall mewn cyfnod o anhawster a gall cryfderau'r ysgol gyfrannu at ddysgu'r llall.*

Gall yr ysgolion drwy gydweithio helpu i gyflawni amcanion a gwelliant drwy eu helpu ei gilydd i mynd i'r afael â phroblemau a rhannu arbenigedd.

- **Cynnwys Pobl:** Pwysigrwydd cynnwys pobl â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y Ddinas a wasanaethwn: Cafodd y cynnig hwn ei weithredu ar y cyd â chyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol berthnasol. Cynhaliwyd rhaglen lawn o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae'r Adroddiad Ymgynghori a baratowyd ar ddiwedd y cyfnod hwn yn amlinellu'n llawn fanylion hyn.